

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion ac, am na chafodd unrhyw gwestiynau eu rhoi ymlaen ynglŷn â chynnig Cwm Cynon, gofynnodd i'r Swyddogion fwrw ymlaen â'r ddogfen ymgynghori nesaf er mwyn ystyried y cynnig ar gyfer Ardal Pontypridd Fwyaf.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y broses ymgynghori nesaf mewn perthynas ag Ardal Pontypridd Fwyaf i Aelodau yn yr un modd â Chynnig Cwm Cynon.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn ceisio'u barn mewn perthynas â'r Cynigion Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer Ardal Pontypridd.

Cafodd yr Aelodau wybod mai'r rheswm dros y cynnig yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ar y cynigion canlynol:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol y Celyn – byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol y Celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a dalgylch 6^{ed} dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol.

Bydd y newidiadau yma yn cael eu cyflawni drwy wneud y canlynol:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd.
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael ei symud i'r ysgol newydd.
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol y Celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen.
- Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed ar gyfer ysgolion uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol drwy wneud y canlynol:
 - Trosglwyddo ardal y Graig ym Mhontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (Y Ddraenen Wen ar hyn o bryd)
 - Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (Y Ddraenen Wen ar hyn o bryd)
 - Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (Bryncelynnog ar hyn o bryd).

Eglurwyd bod y cynigion yn ddibynnol ar ei gilydd ac os byddan nhw'n cael eu gweithredu y cynnig yw y bydd yr holl newidiadau yn eu lle erbyn mis Medi 2022.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y ddogfen ymgynghori i'r Aelodau yn fanwl. Ar ddiwedd y cyflwyniad, eglurwyd bod y cyfarfod bellach ar agor i unrhyw un sy'n bresennol fynegi ei farn i swyddogion ynglŷn â'r Cynigion ar gyfer ardal Pontypridd Fwyaf. Bydd y farn yma yn cael ei chofnodi (fel sydd wedi'i nodi), ac oherwydd mai ymgynghoriad yw hwn, mae'n bosibl y bydd yn cael ei hadrodd yn ôl i'r Cabinet pan fyddan nhw'n derbyn yr adborth ehangach o'r ymgynghoriad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant am y trosolwg o'r cynnig ac eglurodd hi i'r aelodau nad oes modd gwneud unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod. Serch hynny, mae'n gyfle pwysig i roi sylwadau ynglŷn â'r cynigion a rhoi cyfle i sylwadau Aelodau gael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet pan fyddan nhw'n derbyn yr adborth ehangach o'r ymgynghoriad.

Cafodd Aelodau eu gwahodd i fynegi eu barn a rhoi sylwadau ynghylch y pwyntiau canlynol.

Datblygu Canolfannau Rhagoriaeth Ôl-16 yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw, gan fuddsoddi £10 miliwn yn y ddarpariaeth chweched dosbarth newydd yn Ysgol Bryncelynnog

Dywedodd Aelod ei bod yn deall yn llwyr y ddadl dros ddarpariaeth ôl-16 a chweched dosbarth i bawb, fodd bynnag teimlai bod angen ystyried lleoliad adeiladau'r ddarpariaeth chweched dosbarth. Y teimlad oedd y dylai trafodaethau gael eu cynnal gyda Trafnidiaeth Cymru ac ardal ehangach Pontypridd i ystyried yr opsiwn gorau ar gyfer ble y dylai'r disgyblion fynd i'r ysgol. Teimlai'r Aelod mai Pontypridd fyddai'r ardal orau ac nid ardal y Beddau lle mae chweched dosbarth arfaethedig Bryncelynnog wedi'i leoli.

Wrth ateb yr Aelod, eglurodd y Swyddogion ein bod yn edrych ar y galw am leoedd 6^{ed} dosbarth, ac mae niferoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn isel o ran niferoedd o'u cymharu â Choleg y Cymoedd. Mae'r coleg yn darparu dewis amgen y mae llawer o bobl ifainc yn ei ddewis, a bydd cludiant i'r disgyblion i'r coleg agosaf yn cael ei ddarparu. Eglurwyd bod deilliannau cadarn ym Mryncelynnog, yn uwch nag yn yr ysgolion eraill.

Diolchodd yr Aelod Cyfetholedig i'r Cadeirydd am y cyfle i siarad. Cyn iddo ofyn ei gwestiwn cyntaf, dywedodd yr Aelod Cyfetholedig yr hoffai atgoffa Aelodau o un o egwyddorion pwysig y pwyllgor yma. Rydyn ni bob amser wedi ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn rhoi bywydau plant a phobl ifainc yn gyntaf wrth fyndi i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu, ac mae rhaid inni sicrhau nad yw'r Awdurdod yn colli golwg o'r ffaith y bydd bywydau disgyblion, rhieni a staff yn cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

Gofynnodd yr Aelod Cyfetholedig ei gwestiwn cyntaf i'r Swyddog, sef:

Mae hwn yn gynllun cynhwysfawr ar gyfer y Cyngor. Fel y deallaf, mae'n seiliedig ar fodloni gofynion Band B i sicrhau cyllid ar gyfer datblygiad ysgol ac addysgol ac mae'n cael ei lywio'n rhannol gan newidiadau sy'n cael eu rhagweld mewn demograffeg poblogaeth, cynllunio a datblygu yn ogystal â'i fod yn cael ei gyfiawnhau gan ddeilliannau cyrhaeddiad addysgol presennol. Fel y deallaf, hyd yn oed os bydd y cynlluniau yn mynd rhagddyn nhw, bydd gan rieni a disgyblion ddewisiadau o hyd, e.e. bydd disgyblion ôl-16 oed yn gallu dewis ble'r hoffen nhw dderbyn eu haddysg. Nawr, er fy mod i o blaid rhoi'r dewis i rieni, siawns bod rhaid inni sicrhau bod y buddsoddiad yma yn cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud, nid yn unig o safbwynt bod yn gost effeithlon, ond hefyd o ran deilliannau addysgol.

Sut ydyn ni'n mynd i sicrhau bod y deilliannau yma'n cael eu cyflawni os oes posibilrwydd y bydd yr elfen o fympwy sydd ynghlwm â'r dewisiadau hyn cael effaith sylweddol?

Mewn ymateb, eglurodd Swyddogion, er bod y cynigion yn cynnwys dileu'r darpariaethau chweched dosbarth, bod darpariaeth ragorol o hyd ym Mryncelynnog a Choleg y Cymoedd a bod lle i wella ac mae angen i ni roi'r cyfle gorau posibl i ddisgyblion lwyddo. Mae swyddogion yn cefnogi ac yn herio'n rheolaidd ac mae gyda ni berthynas waith dda gyda'r coleg. Eglurwyd bod y Prif Weithredwr yn aelod o fwrdd y Coleg a bod data ar gael a bod deilliannau'n cael eu hadolygu a'u herio'n rheolaidd. Mae Bryncelynnog wedi arddangos deilliannau cryf a chadarnhaol.

Cwestiwn atodol oedd yr ail gwestiwn a gyflwynwyd gan yr Aelod Cyfetholedig – pa gynlluniau sy'n cael eu datblygu i gefnogi ysgolion ac, yn bwysicaf oll, Cyrff Llywodraethu i gyflawni'r cynnig, yn arbennig o ran dewis ysgol. Eglurwyd bod niferoedd uwch yn y 6^{ed} dosbarth yn caniatáu i'r ysgol wella'r ystod o bynciau sydd ar gael. Mae gan Fryncelynnog enw da ac arweinyddiaeth dda a bydd gwell cynnig o ran y dewis o bynciau sydd ar gael i bob myfyriwr.

O ran dewis rhieni, gofynnodd Aelod, tra bod capasiti yn bodoli ym Mryncelynnog, fydd dal modd i blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gwauncelyn ddewis y darparwr uwchradd presennol yn hytrach na'r hyn sy'n cael ei gynnis o dan y newidiadau i'r ffin, a phryd ydyn nhw'n rhagweld y bydd hyn yn dod i ben? Yn ogystal, a fyddai disgyblion yn derbyn cludiant i'r ysgol ar gyfer y dewis yma neu dim ond y rhai sy'n mynychu Ysgol y Ddraenen Wen?

Eglurwyd y byddai'r Cod Derbyn Disgyblion yn cael ei weithredu ac y byddai disgyblion yn y dalgyrch newydd yn derbyn cludiant i'r Ddraenen Wen os ydyn nhw'n gymwys o dan y Polisi Trafndiaeth, ond ni fyddai disgyblion y tu allan i'r dalgyrch yn derbyn cludiant.

O ran Cludiant, gofynnodd yr Aelod Cyfetholedig sut y bydd gan ddisgyblion o ardaloedd difreintiedig fel Glyn-coch ac Ynys-y-bŵl wir ddewis ar ôl 16 oed pan fydd amser teithio ac, yn bwysicach, cost yn ffactor arwyddocaol. Pa gynlluniau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cludiant disgyblion, os o gwbl? A yw Polisi Cludiant Ysgol Llywodraeth Cymru i'w gymhwyso'n llym neu a yw teithio dewisol yn cael ei ystyried? Os felly, sut olwg sydd arno, am ba hyd a beth yw'r costau i'r Awdurdod?

Eglurwyd pe bai'r cynigion hyn yn cael eu cytuno byddai dalgyrch Ysgolion Uwchradd Pontypridd a'r Ddraenen Wen yn newid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth.

Gofynnodd Aelod arall o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc pam ein bod yn dileu'r opsiwn ar gyfer 6ed dosbarth ar gyfer Cilfynydd a'r Ddraenen Wen? Allech chi esbonio'r rheswm dros hyn? Esboniodd y swyddogion fod y niferoedd yn fach yn y ddwy ysgol a chan fod maint dosbarthiadau yn fach, mae cost uwch i'r ysgolion ac mae'n cyfyngu ar y dewis o bynciau Safon Uwch sydd ar gael i fyfyrwyr.

Diolchodd Aelod i'r swyddogion am y cyfle i fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Cytunodd fod angen newid ond teimlai fod angen ystyried pob agwedd. Gofynnwyd a fyddai disgyblion sydd angen addysg ffydd eisiau mynd i Goleg Chweched Dewi Sant yng Nghaerdydd, a fyddai'n golygu rhannu cyfleusterau ag awdurdodau eraill? Teimlai'r Aelod y dylai ysgol uwchradd fod ar gael iddyn nhw yn eu hardal. Mae angen i ni adeiladu ar fodel sy'n gweithio i gynyddu cyfraddau cadw uwch. Mae angen i ni edrych ar ystod eang o ffactorau.

Eglurwyd bod Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd ar hyn o bryd.

Dywedodd Aelod fod plentyn sy'n mynychu lleoliad chweched dosbarth mewn ysgol yn mynd yno i gael cymorth, bod yn gyfarwydd â staff yn eu cymuned, ac i gael perthynas dda gyda nhw. Trwy dynnu'r chweched dosbarth allan o'u cymuned leol efallai y bydd disgyblion yn teimlo'n unig ac mae modd i sefyllfa godi lle nad oes perthynas gyda nhw â staff neu ddisgyblion eraill. Gallai hyn gael effaith ar les pobl ifainc.

Eglurodd y swyddogion fod gan y colegau wasanaethau bugeiliol rhagorol a bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n dda.

Dywedodd Aelodau byddai ardal Pontypridd yn safle gwell ar gyfer coleg 6^{ed} dosbarth, gan ei bod hi'n dref prifysgol a byddai'n cynnig cysylltiadau â'r cymoedd ehangach a thu hwnt.

Mae angen edrych ar gysylltiadau trafniadaeth gan y byddai cyfleoedd cyfyngedig i fyfyrwyr deithio i Fryncelynnog. Teimlai'r Aelod byddai'r adeilad yng nghanol Pontypridd yn fwy buddiol i'r disgyblion a'r economi.

Eglurodd swyddogion fod data yn dangos bod disgyblion yn gwneud penderfyniadau i adael yr ysgolion lleol. Mae canran sylweddol o ddisgyblion yn mynd i'r coleg ac mae data deilliannau yn dangos bod deilliannau'r coleg yn gadarnhaol. Mae parodrwydd i gydweithio. Dydy'r sefyllfa bresennol ddim wedi gweithio, mae angen i ni gynnig yr hyn sy'n diwallu anghenion y disgyblion.

Mewn perthynas â thrafnidiaeth o ardaloedd allweddol, eglurodd swyddogion y byddai gan ddisgyblion docynnau bws, tacsis. Byddai'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yn edrych ar y llwybr. Pwysleisiodd swyddogion fod disgyblion yn gwneud eu penderfyniadau a'u dewis eu hunain o ran ble maen nhw eisiau astudio yn y chweched dosbarth.

Gofynnodd yr Aelod Cyfetholedig gwestiwn ynghylch addysg ôl-16 yng Ngholeg y Cymoedd, Nantgarw – pa atebolrwydd, os o gwbl, fydd gan y Coleg i'r Awdurdod yma am ei ddeilliannau a pha drefniadau llywodraethu fydd yn eu lle? Rwy'n gofyn hyn gan fy mod yn deall bod y mwyafrif o ddisgyblion ôl-16 ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen wedi rhoi arwyddion cynnar y byddan nhw'n dewis y Coleg yn lle mynd i Fryncelynnog.

Eglurodd swyddogion fod y Coleg yn atebol i Estyn ac nid yw'n atebol i'r Awdurdod Lleol, fodd bynnag, mae Prif Weithredwr RhCT yn aelod o'r Bwrdd.

Gofynnodd yr Aelod am weithwyr proffesiynol ysgolion uwchradd sy'n ceisio cyflawniad a datblygiad proffesiynol trwy ddysgu disgyblion ôl-16 – gan na fydd y cyfle i wneud hyn ar gael ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen, sut ydyn ni'n bwriadu recriwtio a chadw darpariaeth ragorol yn y lleoliadau yma?

Eglurodd Swyddog fod datblygiad proffesiynol yn holl bwysig i staff ac mae'r cynigion yn creu cyfle i staff yr ysgol newydd weithio ar draws y cyfnodau.

Symudodd Aelodau yn eu blaenau i ran nesaf y cynnig sef creu dwy ysgol 3-16 oed newydd, ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen, a fydd yn arddel dull gwahanol iawn o addysgu yn yr ardaloedd dan sylw, gan rannu adnoddau'r sectorau cynradd ac uwchradd, a chan fuddsoddi £16.7 miliwn i wella cyfleusterau addysgol;

Croesawodd Aelod y ddarpariaeth. Serch hynny, roedd dau beth yr oedd hi eisiau eglurhad ynglŷn â nhw; yn gyntaf, dyluniad yr adeilad ac yn ail, pryderon ynglŷn ag amser teithio disgyblion i'r ysgolion newydd. Teimlai'r Aelod fod gan rieni bryderon ynghylch y pellter yr oedd rhaid i ddisgyblion ei deithio ac roedd eisiau gwybod a oedd unrhyw adborth wedi bod gan ddisgyblion a staff.

Cyflwynodd Aelodau eu cwestiynau a'u sylwadau mewn perthynas â gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy fuddsoddi £10.7 miliwn mewn ysgol newydd yn lle Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Heol y Celyn.

Soniodd Aelod am bryderon rhieni ynglŷn â'r pellter y byddai'n rhaid i rai o'r plant ifainc ei deithio a pha gludiant fyddai'n cael ei ddarparu.

Eglurwyd y byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn ôl yr arfer.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am fynd â'r Pwyllgor drwy'r ddogfen ymgynghori a derbyn sylwadau cyffredinol o'r llawr.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi ac ambell Aelod o'r Pwyllgor wedi mynd i ymweld â phedair o'r ysgolion newydd a ddatblygwyd yn ddiweddar drwy Broses Band A Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Roedd yr ysgolion hyn yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ond mae'n rhy fuan i dderbyn data deilliannau.

Teimlai'r Cadeirydd y byddai modd cwblhau darn o waith ymhen deuddeng mis i weld sut mae'r cynnig Band A yn symud yn ei flaen ac ystyried sylwadau staff a disgyblion.

Eglurodd y Cadeirydd fod adborth o'r ymweliadau gan benaethiaid, staff, disgyblion a rhieni yn gadarnhaol. Serch hynny, roedd angen rhagor o gefnogaeth o ran y broses drosglwyddo i ysgolion 3-16 oed. Roedd trafnidiaeth yn bryder arall gyda thraffig ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y byddai rhai o'r Penaethiaid yn hapus i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn y dyfodol i siarad am eu profiadau.

PENDERFYNODD y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc

- Cydnabod yr adroddiad Ymgynghori
- Derbyn adroddiad cynnydd ymhen 12 mis i weld sut mae Ysgolion Band A yn datblygu (gan wahodd Disgyblion a Staff i roi sylwadau)
- Anfon llythyr gan y Pwyllgor at y Penaethiaid yn diolch iddyn nhw am yr ymweliadau i'r ysgolion.